

CYRBAU GWENITHFAEN



Gwelir cofebion cyrbau gwenithfaen llwyd ar hyd ymylon y ffyrdd a'r llwybrau yng Ngerddi Coffadwriaeth Parc Gwyn wedi'u prynu dros nifer o flynyddoedd.

Gwneir y cofebion cyrbau o wenithfaen llwyd wedi'i gwyro a gellir gosod enw un person ynghyd ag arysgrif byr neu enwau dau person a dyddiadau eu marwolaeth. Mae'n bosib gadael hanner cwrbyn yn wag ar gyfer ail arysgrif a chadw cwrbyn cyfan i'w ddefnyddio rhywbryd eto.

Wrth lunio'r arysgrif mae'n bwysig cyfyngu'r llinellau lle gosodir enw i 15 llythyren am fod y rhain yn cael eu torri'n brif lythrennau. Dylid cyfyngu'r llinellau eraill i 20 llythyren. Bydd staff ym Mharc Gwyn yn fwy na pharod i gynorthwyo i lunio arysgrif.

Dyma ddwy enghraifft i ddarlunio beth sy'n bosib:

GWENLLIAN RHYS
22.01.1969 – 31.10.2005
TOMOS RHYS
01.12.1967 - 12.12.2005

CARADOG
Mewn Serchus Gof
MEIRION A MEINIR
Buont farw 2004 & 2005